

Adborth asesiad personol – Darllen Gwybodaeth i rieni a gofalwyr



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deall adborth

Mae'ch plentyn wedi gwneud asesiad personol ar-lein byr ar gyfer Darllen. Mae'r wybodaeth hon i'ch helpu i ddeall yr adborth a roddwyd iddyn nhw.

Pwrpas asesiadau personol yw helpu plant i wneud cynnydd, a hynny trwy ddeall yr hyn y gallan nhw ei wneud, yr hyn na allan nhw ei wneud, a'u camau nesaf.

Beth sy'n cael ei asesu?

Mae asesiad personol Darllen yn rhoi gwybodaeth ar ba mor dda y mae plentyn yn deall testun ac a yw'n gallu barnu'r hyn y mae'n ei ddarllen.

Sut mae'r asesiad yn gweithio?

Dewisir y testunau a'r cwestiynau o 'gronfa' fawr a gynlluniwyd ar gyfer Blynyddoedd 2 i 9. Mae pob un wedi'i ddewis yn seiliedig ar yr atebion a roddwyd i'r cwestiwn blaenorol. Os bydd disgyblion yn cael cwestiynau'n iawn, byddan nhw'n cael testun a chwestiwn ychydig yn fwy anodd nesaf. Os na fyddan nhw'n gallu ateb cwestiwn, neu os fyddan nhw'n ateb yn anghywir neu'n sgipio cwestiwn, byddan nhw'n cael testun neu ymarfer cwblhau brawddeg ychydig yn haws. Bydd pob disgybl yn cael rhai cwestiynau'n gywir a rhai cwestiynau'n anghywir, gan mai dyma sut y cesglir gwybodaeth am yr hyn y gall pob disgybl ei wneud ar yr adeg benodol honno. Mae hyn yn golygu y bydd pob disgybl yn derbyn asesiad sy'n unigryw iddo ef/hi.

Beth mae'r adborth yn ei ddweud?

Mae'r adborth yn gipolwg ar sgiliau eich plentyn ar yr adeg y cynhaliwyd yr asesiad. Dim ond un ffynhonnell wybodaeth yw hi am ddealltwriaeth a gwybodaeth gyffredinol eich plentyn. Er mwyn cynllunio gwaith dysgu'r plentyn, bydd yr athro'n ystyried yr adborth hwn, ochr yn ochr â gwybodaeth arall am sgiliau darllen eich plentyn sy'n deillio o waith yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r adran gyntaf '**Y cwestiynau mwyaf anodd ges i'n gywir oedd ar y sgiliau hyn:**' yn rhestru'r meysydd lle rhoddodd eich plentyn atebion cywir ar gyfer y cwestiynau mwyaf heriol.

Mae'r ail adran '**Roedd rhai o'r cwestiynau ges i'n anghywir ar y sgiliau hyn:**' yn ymwneud â'r cwestiynau hawsaf a atebwyd yn anghywir.

Mae'r ddwy adran olaf '**Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd â sgiliau tebyg yn gallu ... ac maen nhw'n debygol o symud ymlaen i wneud hyn:**' yn ymwneud â pherfformiad cyffredinol eich plentyn yn yr asesiad ac yn rhoi trosolwg o'r math o sgiliau y gall disgyblion sydd â phatrwm tebyg o atebion eu cyflawni neu weithio tuag atyn nhw.

Gellir gweld cwestiynau enghreifftiol sy'n berthnasol i bob datganiad sgiliau a restrir yn yr adborth drwy glicio ar y botwm 'cwestiwn enghreifftiol PDF' pan fydd eich plentyn wedi mewngofnodi i'w gyfrif Hwb.

Bydd adroddiadau'n dangos cynnydd eich plentyn dros amser hefyd ar gael gan ysgol eich plentyn.

Am ragor o wybodaeth am asesiadau personol ewch i hwb.llyw.cymru/asesiadau-personol-ar-gyfer-rhieni-a-gofalwyr

